# NOSON DDU-DDIWEDD

Mae'n llonydd ar gaeau Anelog
A phobman fel y bedd,
Dim smic ond sibwrwd y llygod
Sy'n mentro dod allan am wledd;
Y gwrychoedd fel clogyn Afagddu i gyd
Fel bol y fuwch d'wylla hyd bedwar ban byd.

Mae Siôn Blewyn Coch ar ei helfa
Yn slei ac ar flaenau ei draed,
Ac mae Tomi Broch yntau ar lwgu
A'r draenog yn synhwyro gwaed;
Fel pluen o ysgafn dros eu pennau nhw
Yn gwibio fel seren mae'r gwdi-hŵ.

Fry, ger yr aradr a'r sosban,
Mae'r heliwr yn gwylio'r tir
A hynny drwy'r t'wllwch du-ddiwedd
Am bod yr holl wybren yn glir
Fel y bu ers y cychwyn ac y bydd cyhyd
Â bod awyr dywyll dros Ben Draw'r Byd.

Ysgol Crud Y Werin
30 Ionawr 2026